Cyllid & Thollau EF

## CIS – nodiadau arweiniad ar gyfer cofrestru unigolyn ar gyfer taliad gros

# Bydd y nodiadau hyn o gymorth i chi wrth lenwi ffurflen CIS - cofrestru unigolyn ar gyfer taliad gros (CIS302)

### Cofrestru ar gyfer taliad gros

Gallwch gofrestru ar gyfer Cynllun y Diwydiant Adeiladu a gwneud cais am daliad gros ar-lein neu drwy'r ffurflen argraffu ac anfon.

### Cofrestru ac amodau taliad gros

Er mwyn gwneud cais i gofrestru o dan gynllun newydd y Diwydiant Adeiladu (CIS) a sicrhau y caiff taliadau gan gontractwyr eu gwneud i chi yn llawn, mae'n rhaid i'ch busnes fodloni pob un o'r amodau canlynol:

- mae'n cael ei redeg yn y DU gyda chyfrif banc
- mae ganddo drosiant net o £30,000 bob blwyddyn o leiaf
- mae'n cydymffurfio â rhwymedigaethau treth penodol

Gelwir yr amodau hyn yn brawf busnes, prawf trosiant a phrawf cydymffurfio, a chânt eu hegluro isod.

### Prawf busnes

I basio'r prawf hwn mae'n rhaid i'ch busnes wneud y canlynol:

- dangos i ni ei fod yn cynnal gwaith adeiladu yn y DU neu'n darparu llafur ar gyfer gwaith o'r fath
- cael ei redeg drwy gyfrif banc

### Prawf trosiant

Mae'r prawf hwn yn seiliedig ar 'drosiant adeiladu net'. Dyma'ch incwm gros o waith adeiladu, ac eithrio TAW a chost deunyddiau.

I basio'r prawf, bydd angen i chi ddangos bod eich busnes â throsiant adeiladu net o £30,000 o leiaf yn ystod y 12 mis cyn gwneud cais am daliad gros.

Os nad yw'ch trosiant adeiladu net yn ddigon i basio'r prawf, ond mae cyfanswm eich trosiant o bob ffynhonnell yn y 12 mis hyd at y cais yn fwy na'r trothwy, mae'n bosibl y gallwch basio'r prawf o hyd. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar dudalen 3 a 4.

### Cysylltiadau

**Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF**
Ffôn 0300 200 1900

**Y we**
www.gov.uk/cis

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn print bras. Os hoffech gopi, cysylltwch â'ch swyddfa Cyllid a Thollau EF.

Ffoniwch 0300 200 1900 i gael fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

### Prawf cydymffurfio

Er mwyn pasio'r prawf cydymffurfio, yn ystod y 12 mis hyd at ddyddiad y cais am daliad gros, dylech fod wedi gwneud pob un o'r canlynol:

- llenwi a chyflwyno unrhyw Ffurflen Dreth Hunanasesiad sy'n ddyledus erbyn y dyddiad cau
- os ydych yn gontractwr yn y diwydiant adeiladu, eich bod wedi llenwi a dychwelyd unrhyw ddatganiadau misol erbyn y dyddiadau cau ac wedi talu unrhyw ddidyniadau CIS sy'n ddyledus erbyn y dyddiadau dyledus
- os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, eich bod wedi llenwi a dychwelyd unrhyw Ffurflenni TAW sy'n ddyledus ac wedi talu unrhyw rwymedigaethau TAW sy'n ddyledus erbyn y dyddiadau dyledus
- os ydych yn gyflogwr, eich bod wedi talu unrhyw dreth TWE a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) dyledus erbyn y dyddiadau dyledus
- wedi talu eich holl gyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) eich hun erbyn y dyddiad dyledus
- cyflwyno unrhyw wybodaeth rydym wedi gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch treth

Wrth ystyried a ydych wedi pasio'r prawf cydymffurfio, byddwn yn diystyru'r canlynol yn ystod yr un cyfnod o 12 mis:

- tri achos o gyflwyno datganiad misol y contractwr yn hwyr - hyd at 28 diwrnod yn hwyr
- tri achos o gyflwyno Ffurflenni TAW yn hwyr - hyd at 28 diwrnod yn hwyr
- tri thaliad hwyr o TWE/TAW/didyniadau CIS o £100 neu fwy - hyd at 14 diwrnod yn hwyr (caniateir hyn ar gyfer pob treth yn unigol)
- unrhyw daliad hwyr o TWE/TAW/didyniadau CIS lle bo'r swm o dan £100
- unrhyw Ffurflen Dreth Hunanasesiad a wnaed - hyd at 28 diwrnod yn hwyr

Os bydd eich cais i gael eich talu'n gros yn aflwyddiannus, bydd eich taliadau ar gyfer cynllun y diwydiant adeiladu yn cael eu talu drwy ddidyniad ar gyfrif o'ch bil treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn y pen draw. Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi'r union resymau, yn amodol ar reolau cyfrinachedd, pam eich bod wedi bod yn aflwyddiannus, ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut y gallwch fynd ati i apelio.

# Llenwi'r ffurflen gofrestru

### Help ac arweiniad

Bydd y nodiadau arweiniad hyn yn eich helpu i lenwi eich ffurflen gofrestru. Nid ydynt yn cynnwys nodiadau ar gyfer pob blwch - dim ond nodiadau ar gyfer y blychau hynny a allai beri problemau i chi, neu'r rhai lle y bydd rhagor o wybodaeth o ddefnydd i chi. Rydym yn hapus i helpu os hoffech help gydag unrhyw beth.

6 **Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)**

Nodwch y cyfeirnod a roddwyd i chi at ddibenion Hunanasesiad pan wnaethoch gofrestru ar gyfer hunangyflogaeth. Mae hwn hefyd i'w weld ar eich Ffurflen Dreth, Datganiadau, neu hysbysiadau Taliadau ar Gyfrif.
Os nad oes gennych UTR, cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 am ragor o wybodaeth.

7 **Rhif Yswiriant Gwladol, os oes gennych un**

Gallwch ddod o hyd i'ch rhif Yswiriant Gwladol ar y dogfennau canlynol:

- eich bil cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2 neu ddebyd uniongyrchol y banc
- unrhyw ddogfen neu lythyr o'r Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, yr Asiantaeth Budd-daliadau neu'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys
  - cerdyn Yswiriant Gwladol, RD3
  - Hysbysiad o Ddiffyg, RD170
  - cywiriad i rif Yswiriant Gwladol, CA6856
- unrhyw ohebiaeth gan CThEF yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol

Os nad oes gennych rif Yswiriant Gwladol neu os na allwn ni ddilysu'r rhif a roddwyd gennych gyda'n cofnodion, bydd angen i chi gysylltu â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 er mwyn trefnu apwyntiad ag Ymgynghorydd Symudol. Yn y cyfarfod hwn, bydd yn rhaid i chi ddarparu 2 ddogfen i brofi pwy ydych, a bod 1 ohonynt, yn ddelfrydol, yn dangos eich llun. Mathau o ddogfennau sy'n dderbyniol:

- tystysgrif geni
- pasbort
- trwydded yrru
- bil cyfleustodau
- bil treth gyngor

**Nodwch y dyddiad y gwnaethoch ddechrau gweithio yn y diwydiant adeiladu**

10 Mae'r wybodaeth hon yn ffurfio rhan o'r prawf busnes ar gyfer tal gros ac mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi roi tystiolaeth i ategu'r dyddiad hwn.

## Prawf trosiant

17 **Os oedd eich trosiant net o waith adeiladu yn y 12 mis diwethaf yn hafal â £30,000 neu fwy, llenwch y blychau hyn.**

**A. Swm gros y taliadau (heb gynnwys TAW)**

I gyfrifo'r swm hwn, adiwch yr holl incwm yr ydych wedi'i gael o waith adeiladu, gan gynnwys cost y deunyddiau yr ydych wedi'u cyflenwi yn y cyfnod. Peidiwch â chynnwys TAW.

Mae incwm adeiladu yn cynnwys arian gan gleient am waith adeiladu, er enghraifft:

- gosod
- atgyweirio
- plymio
- gwaith trydanol
- paentio ac addurno
- dymchwel

**B. Cost deunyddiau (heb gynnwys TAW)**
Er mwyn cyfrifo hwn, adiwch yr holl symiau yr ydych wedi'i wario ar ddeunyddiau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod. Peidiwch â chynnwys TAW.

Mae 'deunyddiau' yn golygu cost (heb gynnwys TAW) y canlynol:
- tir, deunyddiau adeiladu a defnyddiau traul
- tanwydd neu beiriannau
- y swm gwirioneddol a wariwyd gennych ar logi peiriannau
- unrhyw swm mewn perthynas ag ardoll Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu

**Peidiwch â chynnwys y canlynol:**
- treuliau teithio
- tanwydd ar gyfer teithio
- cost prynu sgaffaldau os yw eich busnes yn isgontractiwr sgaffaldau

**C. Trosiant adeiladu net (A llai B)**
Nodwch fanylion yn ôl yr angen.

**Enghraifft**

| | | |
|---|---|---|
| Swm gros y taliad (heb gynnwys TAW) | £ | 37,000.00 |
| Llai cost deunyddiau (heb gynnwys TAW) | £ | 5,000.00 |
| Trosiant adeiladu net | £ | **32,000.00** |

Fel rhan o'r prawf trosiant, mae'n rhaid i chi allu darparu tystiolaeth er mwyn dangos sut y gwnaethoch gyfrifo'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn y prawf. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos fod gennych drosiant adeiladu net sy'n £30,000 o leiaf yn y cyfnod cofrestru.

Os nad yw'ch busnes yn ymwneud yn bennaf â gweithrediadau adeiladu, ac nad yw eich trosiant adeiladu net yn fwy neu'n hafal i £30,000, ond mae cyfanswm eich trosiant busnes o bob ffynhonnell yn y 12 mis hyd at ddyddiad y cais yn fwy na'r trothwy, mae'n bosibl y gallwch wneud cais am daliad gros o hyd.

Nodwch fanylion eich trosiant gros ynghyd â swm y trosiant adeiladu ar daflen ar wahân. Hefyd, bydd angen i chi roi enwau a chyfeiriadau'r contractwyr yr ydych wedi gweithio iddynt, gwerth pob contract a'r dyddiad y cytunwyd ar y contract.

Ar gyfer y cyfnod yr ydych wedi'i ddefnyddio, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos:
- dyddiadau y daeth y taliadau i law
- swm gros pob taliad a ddaeth i law fel rhan o'r CIS
- taliadau gros llai TAW ar gyfer unrhyw waith preifat
- cost deunyddiau (llai TAW) a ddefnyddiwyd

Codir cosbau am wneud ceisiadau ffug. Os ydych yn rhoi gwybodaeth ffug, ni roddir statws taliadau gros i chi a gellir codi cosb arnoch o hyd at £3,000.

## Manylion cyflogaeth

Fel rhan o'ch cais, bydd angen i ni wybod manylion llawn eich amgylchiadau cyflogaeth ar gyfer y 12 mis blaenorol.

21 **A ydych chi wedi bod mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth gyflawn am y 12 mis diwethaf?**

Os na fyddwch yn ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y bydd eich cais am daliad gros yn cael ei wrthod.

Os byddwch yn nodi 'X' yn y blwch 'Na', bydd angen i chi ddweud wrthym y rheswm pam nad ydych wedi bod yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig yn ystod y dyddiadau dan sylw.

Er enghraifft, gallech fod wedi bod yn ddi-waith, mewn addysg amser llawn, yn gweithio dramor neu gallai fod rhesymau eraill.

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'ch amgylchiadau cyflogaeth ar gyfer y 12 mis diwethaf.

Os byddwch yn mynychu cyfarfod ag Ymgynghorydd Symudol i gyflwyno dogfennaeth i brofi pwy ydych, bydd hefyd angen i chi ddarparu'r canlynol:
- prawf o fanylion cyflogaeth yn y 12 mis diwethaf
- dogfennaeth cyfrif banc i fodloni'r prawf busnes
- tystiolaeth ddogfennol o'r prawf trosiant, er enghraifft anfonebau a dalwyd, datganiadau didyniadau CIS, manylion banc
- os ydych wedi bod yn breswylydd dramor yn ystod y 12 mis diwethaf, tystiolaeth i ddangos eich bod wedi bodloni ymrwymiadau treth eich gwlad breswyl

## Preifatrwydd a Diogelu Data

**Sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth**

Mae Cyllid a Thollau EF yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Mae'n bosibl y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu yn unig, a hynny er mwyn gwneud y canlynol:
- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Mae'n bosibl y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis asiantaethau neu adrannau eraill o'r llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EF, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a defnyddiwch y cyfleuster chwilio i ddod o hyd i'r adran Deddf Diogelu Data.